

# Goleuo

## Chwyldro'r bwlb ynni isel

Mae bylbiau golau arbed ynni yn defnyddio hyd at 90% yn llai o drydan na'r hen fylbiau, ond yn cynhyrchu'r un faint o olau. Ac maent yn para dros 10 gwaith yn hirach.

Ers 2011, mae wedi bod yn ofynnol i'r holl fylbiau golau yn yr UE fodloni safonau effeithlonrwydd ynni newydd. Oherwydd bod yr hen fylbiau aneffeithlon yn raddol farw allan, a'r bylbiau newydd ynni-effeithlon yn dod yn eu lle, mae cartref cyffredin yn y DU bellach yn defnyddio bron i draean yn llai o drydan i oleuo eu cartref nag yn y 1990au hwyr.

Ar ôl 2016, dim ond bylbiau golau gyda graddfa ynni B neu well fydd ar gael i'w prynu. Byddai gan hen fwlb cyffredin (gwynias) raddfa ynni o E.

Fel yr hen fylbiau, mae'r rhai ynni effeithlon yn dod mewn amrywiaeth o siapiau, meintiau a disgleirdeb. Gallwch eu prynu ar gyfer ffitiadau bayonet neu sgriw.

Mae hyd yn oed bylbiau ynni isel pyladwy wedi'u datblygu. Ar ben hynny, mae gan y modelau diweddaraf olau cynhesach sy'n debyg iawn i hen fylbiau. Cadwch lygad am y label Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Argymhellir ar gyfer y bylbiau sy'n perfformio orau.



*O's oes gan fwlb y logo 'Recommended' glas, bydd yn cynhyrchu goleuni â lliw cynnes tebyg i'r hen fwlb, yn mynd yn llachar yn gyflym ac yn para am o leiaf 6,000 awr.*



Lluniau: bylbiau, Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, gosodiad golau, Paul Groom

Mae tri phrif fath o fwlb golau ynni isel erbyn hyn: bylbiau halogen, bylbiau golau fflworoleuol cryno (CFL) a deuodau allyrru golau (LEDs). Mae pob un o'r bylbiau hyn yn fwy effeithlon ac yn para'n hirach na'r hen fylbiau. Maent yn cynhyrchu mwy o olau ar gyfer pob uned o drydan ac mae angen eu newid yn llawer llai aml.

### Bylbiau Halogen

Mae'r bylbiau hyn yn gweithio mewn ffordd debyg i'r hen fylbiau gwynias, mae ansawdd y golau'n debyg, ond maent yn defnyddio hyd at 40% yn llai o drydan. Maent yn gweithio'n dda gyda switsys pylu ac yn cyrraedd eu disgleirdeb llawn bron yn syth. Fodd bynnag, mae gan ystafelloedd a gaiff eu goleuo gan halogenau lawer o ffitiadau fel arfer, sy'n cynyddu cost y goleuadau yn gyffredinol. Yn anffodus, mae halogenau yn dal i ddefnyddio llawer mwy o ynni na golau LED neu CFL ac nid ydynt yn cyrraedd graddfa effeithlonrwydd ynni B, felly mae'r UE wedi pennu dyddiad targed o 2016 ar gyfer cael gwared arnynt yn raddol. Gallwch newid eich bylbiau halogen am rai LED.



### CFL

Bylbiau golau fflwroleuol cryno neu CFL yw'r math mwyaf cyffredin o fwlb golau a werthir yn y DU. Maent yn defnyddio'r un dechnoleg â lampau fflwroleuol tiwb fel y rhai a geir mewn swyddfeydd ac adeiladau masnachol. Maent fel arfer yn edrych

Sut maen nhw'n cymharu?			
	Halogenau	CFL	LED
Amcangyfrif o'r gost am bob bwlb	£2	£4	£10
Ynni a arbedir yn gyffredinol*	25%	75%	80%
Oes cyfartalog (oriau)	2,000	10,000	25,000+
Amser i gyrraedd disgleirdeb llawn	yn syth	30-120 eiliadau	yn syth
Cost cynnal cyffredinol bob blwyddyn	£12.32	£4.11	£3.29

\* o'i gymharu â bwlb gwynias cyfatebol



fel tiwbiau ar siâp helics neu gyfres o ddolenni, er ei bod bellach yn bosibl cael CFL mewn amrywiaeth o siapiau bwlb traddodiadol. Mae bylbiau ar gael hefyd sy'n debyg iawn i safon goleuni gwynias. Yn aml, caiff CFL ei feirniadu am gymryd amser hir i gyrraedd disgleirdeb llawn, ond mae'r rhan fwyaf bellach yn cyrraedd 70% o'i ddisgleirdeb llawn o fewn

munud o'i droi ymlaen.

### LED

Deudodau allyrru golau, y cyfeirir atynt fel arfer fel LEDs, yw'r bylbiau mwyaf effeithlon sydd ar gael. Maen nhw wedi bod o gwmpas ers blynyddoedd fel goleuadau bach ar setiau teledu a goleuadau beic. Maent yn cyrraedd disgleirdeb llawn yn syth, gellir eu pylu ac maent ar gael mewn amrywiaeth eang o liwiau, gan gynnwys arlliwiau agos at fylbiau gwynias traddodiadol.



Mae LED yn ddrutach ond mae eu defnydd o ynni isel iawn yn golygu y caiff y gost hon ei ad-dalu a mwy dros gyfnod eu hoes hir iawn. Maent yn defnyddio un rhan o ddeg o'r trydan y mae bylbiau halogen cyfwerth yn ei ddefnyddio. Mae LED yn opsiwn ynni isel ar gyfer ffitiadau modern fel G4 a MR16, ac maent ar gael hefyd ar gyfer ffitiadau mwy traddodiadol fel goleuadau bayonet, sgriw a strided.

### Watiau a lumens

Yn draddodiadol, mae bylbiau golau wedi cael eu graddio mewn watiau. Mae'r watedd yn dweud wrthyf faint o drydan y bydd bwlb golau yn ei ddefnyddio ac yn eich galluogi i gyfrifo faint y bydd yn ei gostio i'w gynnal. Nid yw Watiau yn fesur cywir o olau sy'n cael ei ryddhau – caiff hyn ei fesur mewn lumens mewn gwirionedd. Y dyddiau hyn, pan fyddwch yn prynu bwlb golau, byddwch yn gweld ffigur ar gyfer lumens

yn ogystal â graddfa'r watedd ar y pecyn. Mae'r tabl yn dangos y watedd y byddai angen i chi gynhyrchu'r un disgleirdeb gyda gwahanol fathau o fylbiau. Gallwch ei ddefnyddio fel canllaw i newid eich hen fylbiau am rai mwy ynni effeithlon.

Lwmen v Watt				
Lwmen	Bwlb hen deip	Bwlb halogen	CFL	LED
1300	100W	75W	25W	20W
700	60W	45W	15W	12W
400	40W	30W	10W	8W
200	25W	19W	6W	5W

### Trowch nhw i ffwrdd!

Yn olaf, os ydych yn poeni am eich bil trydan, un o'r pethau gorau y gallwch ei wneud yw cadw llygad ar ddefnydd eich cartref o oleuadau. A gaiff goleuadau eu diffodd pan nad ydynt yn angenrheidiol neu a ydynt yn cael eu gadael ymlaen mewn ystafelloedd gwag? Beth am y cynteddau a phen y grisiau? Ydych chi wir angen y goleuadau hynny ymlaen drwy'r amser? Mae'n arbennig o bwysig defnyddio bylbiau ynni isel mewn manau lle mae wir angen i chi gael y golau ymlaen am gyfnodau hir o amser.



Mae pecynnu bwlb golau nawr yn datgan yn glir cryfder y bwlb mewn lwmen yn ogystal â watt

Ffigurau yn gywir Ionawr 2015



3 St Peter's Court  
Bedminster Parade  
Bristol BS3 4AQ

0117 934 1400  
www.cse.org.uk  
info@cse.org.uk

Charity: 298740  
Founded: 1979

Mae'r **Ganolfan Ynni Cynaliadwy** (CSE) yn elusen genedlaethol sy'n helpu pobl i newid y ffordd maent yn meddwl ac yn gweithredu ar ynni.

Mae ein **Tim Ynni Cartref** yn cynnig cyngor am ddim ar y defnydd o ynni domestig i ddeiliaid tai ym Mryste a Gwlad yr Haf (gan gynnwys awdurdodau unedol Gogledd Gwlad yr Haf a Chaerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf).



### For energy advice:

Ffôn 0800 082 2234

E-bost [home.energy@cse.org.uk](mailto:home.energy@cse.org.uk)

Gwe [www.cse.org.uk/loveyourhome](http://www.cse.org.uk/loveyourhome)



[www.facebook.com/EnergySavingAdvice](https://www.facebook.com/EnergySavingAdvice)



[www.twitter.com/cse\\_homeenergy](https://www.twitter.com/cse_homeenergy)